# MAE O'N BERSON BORING!

**Beth sy'n gwneud person yn ddiddorol, tybed? Cwestiwn anodd!**

Yn fy marn i mae'r hyn rydych chi'n ei wneud yn bwysig. Does neb yn cofio'r person sy'n cymryd y llwybr hawdd a diogel, yr un sy'n gweithio uwchben ei gyfrifiadur neu'n llenwi ffurflenni am ei bod yn swydd saff. Popeth yn iawn os ydych yn gwneud rhywbeth diddorol yn eich amser hamdden. Ond beth am y rheiny sy'n chwarae gemau cyfrifiadurol bob min nos? Dydyn nhw ddim yn ehangu eu gorwelion.



I'r gwrthwyneb i'r rheiny mae'r bobl sy'n cymryd risgiau – yn mentro i swydd newydd a chyffrous ac yn cymryd rhan mewn hobïau fel mynydda, rafftio dŵr gwyn a theithio'r byd.

Chwilfrydedd yw'r catalydd i gymryd risg, dybia i. Os ydych yn chwilfrydig am y math o fywyd a geir yn Sbaen rydych yn fwy tebygol o fynd yno. Mae chwilfrydedd yn eich newid o fod yn arsyllwr i fod yn weithredwr ac yn eich gwneud yn fwy diddorol. Mae'n rhan bwysig o ddychymyg hefyd, yn gwneud i'ch meddwl grwydro'n wyllt! Mae'n codi cwestiynau a'r rheiny yn eich gorfodi i gyfathrebu yn lle swatio fel llygoden mewn cornel!

Rhydd i bawb ei farn ac i bob barn ei llafar yw'r hen ddywediad, ond beth am y person sydd heb farn, y person 'wmbo' neu 'sa i'n gwbod yna? Pe bai'n meddwl, byddai ganddo farn a byddai'n bersonoliaeth lawnach. Er hynny, dydy ailadrodd neu gytuno â'r hyn mae rhywun arall wedi ei ddweud ddim yn mynd i gyffroi neb chwaith!

Yr hyn sy'n gwneud pobl yn ddiddorol ydy bod eu barn yn unigryw a'u dadleuon yn ffres. Maen nhw'n rhoi sioc i chi ac yn gwneud i chwithau feddwl!

Efallai nad oes yn rhaid wrtho ond mae presenoldeb yn bwysig. Mae'n nodwedd anodd i'w diffinio ond rydych yn adnabod presenoldeb pan welwch e. Yn y bôn yr hyn ydy e yw eich hunanhyder, eich ystum corfforol a pha mor dda yr ydych chi'n adweithio'n gymdeithasol. Dychmygwch grŵp pop yn dod ar lwyfan ac yn gwneud dim ond canu heb ddangos unrhyw fath o emosiwn. Dim ots pa mor dda fyddai'r caneuon a'r canu byddai'r perfformiad yn ddiflas. Mae'r un peth yn wir am bobl. Gall rhai pobl, oherwydd eu presenoldeb, greu argraff ddymunol er bod yr hyn maen nhw'n ei ddweud yn undonog ac yn ddiflas. Ar y llaw arall, gall person ddweud rhywbeth gwefreiddiol ond mewn modd anniddorol ac felly ymddangos yn ddiflas!